**Y Pwyllgor Diwylliant CC-13-01(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 18 Gorffennaf |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd) – eitem 4 yn unig

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Richard Davies (Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol)

**Hefyd yn bresennol**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor ar y Gymraeg)

**Datganiadau o fuddiant:** Datganodd y Cadeirydd ei aelodaeth o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

**Sylwadau rhagarweiniol**

Crybwyllodd y Cadeirydd ei fod yn ddiweddar wedi mynychu digwyddiad Cymraeg i Oedolion llwyddiannus a chadarnhaol yn Aberdâr.

**Eitem 1: Adolygiad y pwyllgor o’r Gymraeg**
**Papurau: CC-13-01(p.1a-1b)**

Corff:

**Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Cynrychiolwyr:

Huw Lewis

Iwan Standley

Aled Davies

Nia Williams

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Un o’r prif wendidau yn strwythur presennol y Cynulliad yw nad oes Pwyllgor trawsbynciol i’r Gymraeg.
- Mae angen Pwyllgor o’r fath fel bod y Gymraeg yn un o ystyriaethau pob portffolio pwnc.
- Un o’r prif feysydd y gall y Cynulliad wneud gwir wahaniaeth ynddo yw pwyso am greu Deddf iaith newydd.

- Dylai’r Ddeddf newydd ganolbwyntio ar bum maes:

- Y Gymraeg fel iaith frodorol Cymru
- Yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn goroesi fel iaith gymuned fyw
- Dylid datgan bod y Gymraeg yn un o ieithoedd "swyddogol" Cymru
- Pwysigrwydd ymestyn darpariaethau i gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol. Nid yw dibynnu ar ewyllys da yn ddigon i wneud i gwmnïau preifat weithredu’n ddwyieithog.
- Lle’r Gymraeg yn y chwyldro technolegol; mae llai na hanner Cynghorau Sir Cymru â gwefannau dwyieithog, a gwefannau Saesneg yn unig yw rhai’r Ysgrifennydd Gwladol a’r Blaid Lafur yng Nghymru hefyd.

Gwnaed y sylwadau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Gofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Gymdeithas ailystyried eu cais am bwyllgor trawsbynciol gan fod y Pwyllgor Diwylliant yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau bod pob pwyllgor yn rhoi sylw i fater yr iaith Gymraeg yn eu portffolios.
- Mynegodd sawl aelod amheuon ynghylch ymestyn darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gwmnïau preifat ac i’r sector gwirfoddol gan ddweud ei bod weithiau’n anodd tynnu’r llinell rhwng busnesau bychain a chwmnïau mwy. I gwmnïau bychain neu i’r sector gwirfoddol gallai costau gorfod darparu gwasanaethau dwyieithog fod yn achos iddynt fynd allan o fusnes.
- Yr oedd gwaith ar y gweill (dan baragraff 56.1(0) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) i adnabod swyddogaethau o natur gyhoeddus a gâi eu cyflawni gan gwmnïau a oedd yn y sector cyhoeddus adeg Deddf 1993 ond sydd wedi eu preifateiddio ers hynny.
- Wrth ymateb i’r pwynt hwn, dywedodd cynrychiolwyr y Gymdeithas eu bod yn cydnabod cymhlethdod y sefyllfa, a galwasant am ragor o ymchwil yn y maes ac am greu matrics ieithyddol.

**Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru**

Cynrychiolwyr:

R Alun Ifans

Betsan Williams

Elfed Roberts

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Nod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw creu prosiectau datblygu cymunedau cryf trwy roi

cyfle i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y celfyddydau.

- Mae’r Eisteddfod yn codi proffil pob ardal y mae’n ymweld â hi trwy ddenu ymwelwyr o bob rhan o’r byd.
- Mae’r budd a ddaw i gymuned arbennig trwy ymweliad yr Eisteddfod yn dal i gael ei deimlo fisoedd a blynyddoedd ar ôl y digwyddiad.
- Mae’r Eisteddfod yn defnyddio’r celfyddydau fel offeryn i ddatblygu’r Gymraeg ac yn creu llawer o gyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg. Er hynny, yr oedd y cynrychiolwyr yn awyddus i bwysleisio bod yr Eisteddfod yn rhywbeth i bawb ac yn Llanelli y llynedd yr oedd nifer o bobl ddi-Gymraeg yn aelodau o banelau’r Eisteddfod.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Mae’r Eisteddfod yn aml yn cydweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill mewn cymuned (e. e. Mentrau Iaith) ac yn tynnu ar eu profiad. Mae’r partneriaethau hyn yn aml yn parhau ymhell wedi i’r Eisteddfod adael ardal.
- O safbwynt cloriannu, mae’r Eisteddfod yn cynnal arfarniad blynyddol, ond yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd yn unig i gloriannu ei heffaith ar gymunedau ymhen pum neu ddeng mlynedd.
- Gwnaeth yr Eisteddfod gryn wahaniaeth i ardal Casnewydd ac arweiniodd at agor nifer o ysgolion dwyieithog yn yr ardal.
- Daeth y Cadeirydd â’r sesiwn i ben trwy nodi bod angen darganfod ffyrdd i beri bod effaith yr Eisteddfod ar ardal arbennig yn parhau. Gofynnodd i’r Eisteddfod ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig bellach ynglyn â sut y gallai hyn ddigwydd.

**Yr adolygiad hyd yma**

Rhoddodd yr ymgynghorydd arbenigol adroddiad ar ddatblygiad yr adolygiad hyd yma. Dywedodd fod angen rhagor o amser i’r Pwyllgor drafod syniadau a ddeilliai o’r adolygiad. Teimlai nad oedd, at ei gilydd, ddigon o ymwybyddiaeth gyhoeddus o amcanion yr adolygiad, ond bod sioeau teithio’r Pwyllgor wedi helpu gryn dipyn â’r broses o godi ymwybyddiaeth. Adleisiodd y Cadeirydd y sylwadau hyn a dywedodd mai siomedig, hyd yma, fu’r ymateb ysgrifenedig. Dywedodd y byddai ar gael i drafod yr adolygiad ar wahanol adegau ym mhabell y Cynulliad yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Soniodd y Cadeirydd hefyd fod Pwyllgor Rhanbarthol y De-Orllewin wedi cynnal cyfarfod cynhyrchiol iawn ar yr iaith yn Abergwaun ar 6 Gorffennaf.

Gwnaed y sylwadau canlynol gan yr aelodau:

- Mynegwyd pryder bod perygl i’r adolygiad fynd ymlaen yn rhy hir a cholli ei ffocws oherwydd hynny.
- Yr oedd angen i bwyllgorau pwnc eraill greu amser i’r adolygiad yn amserlenni’r hydref.
- Ni ddylid gwahodd Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i sioe deithio Casnewydd, ond cynnig amseroedd eraill iddynt mewn cyfarfod yn y Cynulliad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn barod i edrych ar yr amserlen ac ystyried newidiadau a awgrymwyd ond teimlai mai dyma’r unig gyfle i’r Cynulliad greu polisi awdurdodol ar gyfer yr iaith ac y dylai pawb gael dweud ei ddweud. Er hynny, addawodd edrych eto ar y rhestr o gyrff a gâi eu gwahodd i sioe deithio Casnewydd.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog – CC-13-01(p.3)**

Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad. Yr oedd yn dda ganddi roi gwybod i’r Pwyllgor fod Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cyhoeddi y byddai’n rhoi £11.1 miliwn i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

Rhoddodd wybod i’r Pwyllgor hefyd am gyhoeddiad diweddar bod grant o £64,000 wedi ei ddyfarnu (ar sail cyllid cyfatebol gan Gyngor Dinas Caerdydd) i’r Gemau Olympaidd Arbennig eleni yng Nghaerdydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Croesawodd y Pwyllgor y newyddion am Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Gobeithiai’r aelodau y gallai’r Pwyllgor ymweld â’r safle yn ystod ei ymweliad arfaethedig ag Abertawe ym mis Hydref.
- Bu amrywiol sylwadau am weithdrefnau a ddefnyddiwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Teimlai aelodau y dylai CCC benodi Is-Gadeirydd a gwnaed sylwadau bod aelodau o CCC wedi eu penodi mewn dull ad-hoc. Yr oedd pryderon ynglyn â phenderfyniad diweddar CCC i wrthod cais Clwyd Theatr Cymru am grant tuag at ei theatr symudol. Addawodd y Gweinidog wneud datganiad ynglyn â’r penderfyniad hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf. Addawodd hefyd wneud datganiad am yr effaith a gâi cynigion ailwampio’r Cyngor ar ei Dîm Celfyddydau Gweledol. Ond gwrthododd y Gweinidog honiadau mai yn ad-hoc y câi penodiadau i CCC eu gwneud. Dywedodd fod yr holl benodiadau yn dilyn gweithdrefnau llym a gâi eu goruchwylio gan aelodau enwebedig y Pwyllgor. Dywedodd fod CCC wedi datgan ei fwriad i benodi Is-Gadeirydd yn y dyfodol agos.
- Wrth ateb cwestiwn am gylch gorchwyl ac aelodaeth y Fforwm Pêl-droed, dywedodd y Gweinidog y câi gwedd derfynol ei rhoi ar y rhain drannoeth, ond y byddai’r aelodaeth yn adlewyrchu’r cyrff allweddol ac yn anelu at gydbwysedd daearyddol.
- Wrth ymateb i gais am ffigurau diwygiedig ar Ganolfan Mileniwm Cymru, atebodd y Gweinidog fod y broses dendro am y gwaith adeiladu ar y gweill a bod y tendrau yn awr yn cael eu hastudio a’u cloriannu’n ofalus cyn symud ymlaen i ail gam y trafodaethau.

**Eitem 3: Arolwg pum-mlynyddol o Fwrdd yr Iaith Gymraeg (ByrIG) – adroddiad terfynol drafft**
**Papur: CC-13-01(p.4)**

Arolygwyr:

Gareth Gregory

Meurig Royles o Newidiem

Cyflwynwyd yr eitem hon yn fyr gan Michael Trickey o’r Is-adran Rhaglenni Ariannol. Dywedodd wrth yr aelodau eu bod yn cael eu holi am eu barn ar adroddiad terfynol drafft, a fyddai, yn ddarostyngedig i sylwadau, yn cael ei gyflwyno wedi hynny i’r Gweinidog.

Rhoddodd Gareth Gregory grynodeb o brif argymhellion yr adroddiad:

- Daeth rhan gyntaf yr arolwg, a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ôl ym mis Mawrth, i’r canlyniad fod yr angen am FyrIG a’i swyddogaethau yn parhau.
- Daw’r adroddiad i’r casgliad fod y Bwrdd yn cael ei redeg yn effeithiol, fod ei staff yn ymroddedig a thra chymwys a bod ganddo ddiwylliant o weinyddu cyfrifol.
- Materion yn ymwneud â strategaeth yw’r rhai mwyaf difrifol a ddeillia o’r arolwg. O’r 26 o brif argymhellion yn yr adroddiad, mae’r cyfan bron yn ymwneud â materion yr awgryma’r arolygwyr y gallai’r Bwrdd ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella ei effeithiolrwydd strategol.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Wrth ateb a oedd yr adolygwyr wedi ystyried argymell newidiadau i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 er mwyn llacio’r cyfyngiadau ar y Bwrdd, atebodd Mr Gregory fod hyn y tu allan i gylch gwaith yr arolwg ac mai mater i’r Cynulliad ei hun ydoedd yn ei hanfod.
- Yr oedd y Bwrdd wedi etifeddu ei swyddogaethau noddi cyrff diwylliannol cenedlaethol oddi wrth y Swyddfa Gymreig; mae hyn yn llyncu cyfran sylweddol o’r cyllid a roddir gan y Bwrdd. Mae’r rhesymeg y tu ôl i gyllideb ghyoeddus y cryff hyn yn ehangach nag amcanion y Bwrdd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i'r graddau hynny mater o farn ydyw a all flaenoriathau'r cyrff hyn fod yn union yr un peth â rhai'r Bwrdd.
- Cytunai Mr Gregory â’r Gweinidog y dylai fod cyswllt rhwng yr arolwg pum-mlynyddol hwn ac adolygiad y Pwyllgor o’r Gymraeg. Teimlai y gellid cynnwys argymhellion yr arolwg pum-mlynedd yn adroddiad y Pwyllgor.
- Wrth ymateb i osodiad yn datgan y dylai’r Bwrdd ganolbwyntio mwy ar roi arweiniad a hyfforddiant i’r Mentrau Iaith, nododd yr arolygwyr fod datblygiadau sylweddol wedi bod yn y maes hwn dros y blynyddoedd. Mae’n bwysig bod arferion da yn lledaenu i’r holl Fentrau Iaith fel y gallant weithio mor effeithiol ag sy’n bosibl.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno’r adroddiad terfynol drafft i’r Gweinidog fel yr oedd. Gofynnodd yr aelodau am gopi o’r llythyr cylch gwaith blynyddol a anfonwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Eitem 4: Ystyried blaenoriaethau cyllideb**

**Papur: CC-13-01(p.5)**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am y blaenoriaethau a nodwyd ganddynt yn y drafodaeth gychwynnol ar y gyllideb ar 20 Mehefin:

- Y Gronfa Gelfyddydau Ieuenctid Genedlaethol
- Y sefydlogi ar Opera Genedlaethol Cymru (y Cwmni Opera) a oedd yn cael ei wneud ar y pryd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr – teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig i CCC gyfrannu'n llawn at y broses sefydlogi.
- Datblygu CCC fel asiantaeth i hyrwyddo'r celfyddydau, â phwyslais cryf ar gelfyddyd gymuned.
- Datblygu stiwdios a chyfleusterau ymarfer i artistiaid ifanc.

Yn ogystal, enwodd y Cadeirydd dri phrosiect arall y teimlai y dylid eu cefnogi:

- Costau sefydlu Sefydliad Theatr Rhyngwladol yng Nghymru
- Rhaglen gyfrifiadur BT ar gyfer geiriadur Saesneg-Cymraeg, Cymraeg-Saesneg
- Costau refeniw i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol

Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur yn fyr. Dywedodd ei bod yn ceisio barn gyffredinol am themâu a blaenoriaethau yn erbyn cefndir profiad y Pwyllgor o ystyried materion polisi â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Atgoffodd y Pwyllgor nad oedd hon yn flwyddyn arolwg cynhwysfawr o wariant. Nid oedd y papur yn cyfeirio at yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, gan nad oedd yr Ardd Fotaneg wedi cyflwyno cynllun busnes fel y gofynnwyd iddi wneud. Yr oedd y Gweinidog yn awyddus i symud ymlaen â'r mater hwn yn yr wythnosau nesaf.

Gwnaed y sylwadau canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ynglyn â'r diffygion sy'n wynebu'r Ardd Fotaneg ar hyn o bryd yn ei rhaglen ddatblygu gyfalaf.

- Cyfeiriwyd at y £2m a glustnodwyd i GMC ynghyd â'r £2m ychwanegol i'r celfyddydau ar draws Cymru. Byddai'r olaf yn galluogi gweddill Cymru i elwa ar weithgareddau CMC pan ddechreuai'r Ganolfan weithredu. Nododd yr Aelodau fod angen dechrau ar y gwaith paratoi yn fuan er mwyn sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Nododd aelodau unigol eu blaenoriaethau hwy fel a ganlyn:

- Dywedodd Delyth Evans yr hoffai weld cefnogaeth benodol i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol; i brosiectau ar gyfer pobl ifanc; i'r flwyddyn amrywiaeth ddiwylliannol yn 2002; ac i dargedu rhagor o gyllid ar gyfer yr iaith Gymraeg.

- Gwnaed datganiad o fuddiant gan Rosemary Butler gan ei bod yn Gadeirydd bwrdd cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Gofynnodd a ellid defnyddio cyllidebau eraill (e.e. Addysg) ar gyfer y prosiectau TGCh a awgrymwyd gan y Pwyllgor, neu a ellid rhoi arian i'r rhain o arian a fyddai dros ben ar ddiwedd y flwyddyn.

- Yr oedd ar Lorraine Barrett eisiau i gyllid gael ei anelu at gais Caerdydd a Chymru i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Blaenoriaethau Alison Halford oedd stadiwm chwaraeon i Lannau Dyfrdwy; rhagor o arian i Opera Genedlaethol Cymru; arian tuag at adnewyddu Clwyd Theatr Cymru ac adroddiadau cyson i sicrhau gwariant cyfartal ar ddiwylliant yn y de a'r gogledd.

Addawodd yr Ysgrifenyddiaeth y byddai'n dwyn y blaenoriaethau hyn ynghyd mewn llythyr drafft ac yn ei ddosbarthu i'r aelodau i gael eu sylwadau.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Mehefin a 4 Gorffennaf**
**Papurau: CC-11-01(min) a CC-12-01(min)**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cofnodion fel y'u drafftiwyd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Gorffennaf 2001**